

## **Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiad (dirybudd)**

**Bwrdd Addysgu Iechyd  
Lleol Powys**

## **Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod**

Ward Clywedog  
Ward Elan

6 a 7 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb .....	4
5.	Canfyddiadau.....	8
	Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	Cyflenwi Hanfodion Gofal .....	10
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	24
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol .....	30
6.	Y Camau Nesaf.....	35
	Atodiad A.....	36

## 1. Cyflwyniad

Ar 6 a 7 Tachwedd 2014, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad urddas a gofal hanfodol dirybudd yn Ward Clywedog a Ward Elan yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod, sydd yn rhan o Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweiliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o'r amgylchedd gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

### 3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn darparu gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd i boblogaeth Powys. Powys yw'r sir deneuaf ei phoblogaeth yng Nghymru, ond mae'n cwmpasu'r ardal fwyaf, gan estyn mor bell i'r gogledd â Llanymynech, ger Croesoswallt, ac i lawr i Ystradgynlais, sy'n agos i Abertawe.

Lleolir Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod yng nghanolbarth Powys, ac mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol i'r boblogaeth o'i gwmpas ym Mhowys: uned mân anafiadau, clinigau cleifion allanol, llawdriniaeth ddydd, un ward asesu ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl, ac un ward cleifion mewnol ar gyfer oedolion hŷn. Mae gan y safle hefyd uned famolaeth fach ac uned dialysis.

Canolbwyntiodd yr ymweliad arolygu hwn yn bennaf ar yr uned ar gyfer asesu'r henoed eiddil eu meddwl ar Ward Clywedog. Er mai darpariaeth ar gyfer cleifion Powys yw hon, darperir y gwasanaeth ei hun gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mewn adeiladau ysbyty sy'n eiddo i Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys. Gwnaethom ymweld â Ward Elan hefyd, uned llawdriniaeth ddydd ar yr un safle ysbyty â Ward Clywedog. Mae Ward Elan yn wasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, a chyflogir y staff ganddo hefyd. Fodd bynnag, darperir gwasanaethau llawfeddygol gan Ysbyty Sirol Henffordd, Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt, Croesoswallt, a darparwyr y GIG yng Nghymru.

Dau reswm am wneud hyn oedd ein bod eisiau gweld sut roedd dwy uned gyfagos a leolir ar yr un safle ond a reolir gan Fyrdau Iechyd gwahanol yn diwallu anghenion cleifion o'r un ardal, a ph'un a oedd y wardiau'n cydweithio o gwbl wrth ddarparu nyrsio o ddydd i ddydd.

## 4. Crynodeb

### WARD CLYWEDOG

Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ac yn ymroddedig i ddarparu cymorth cydwybodol i gleifion ac i gynnis gweithgareddau ystyrlon er mwyn helpu i wella annibyniaeth a hybu cyfforddusrwydd cleifion yn ystod eu hamser ar y ward. Roedd y ward yn cael ei hailwampio tra oeddem yn bresennol, ac roedd sŵn sylweddol yn dod o'r gwaith adeiladu; fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd hyn yn cynhyrfu'r pedwar claf oedd ar y ward.

Ar y cyfan, canfuom fod y staff yn darparu lefelau uchel o ofal ar draws pob maes yn ymwneud â hanfodion gofal (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn), gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfathrebu cryf ac annog cleifion i fod mor annibynnol â phosibl.

Gwelsom staff yn rhoi pwyslais cryf ar bennu amser i siarad â'u cleifion. Gwelsom hefyd yn y cynlluniau gofal cynhwysfawr a ddefnyddir gan dîm y ward fod hon yn agwedd bwysig ar y gofal.

Gwelsom staff yn ymddwyn yn barchus ac yn garedig tuag at y cleifion yn eu gofal. Cawsom hefyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion a ddywedodd wrthym fod y staff yn ddymunol.

Gwelsom staff yn gweithio'n galed fel tîm i gefnogi a hybu annibyniaeth eu cleifion. Roedd gan staff fynediad at ystod eang o adnoddau yr oeddent yn gallu eu defnyddio i gynyddu annibyniaeth cleifion gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod staff yn annog teuluoedd a chyfeillion i chwarae rhan weithredol os yw hynny'n fuddiol i'r claf.

Roedd staff yn defnyddio'r amryw fannau cymunol i helpu i gadw'r amgylchedd yn dawel ac yn llonydd i gleifion. Roedd ystafell sengl a ddefnyddid i gleifion yr oedd angen y lefel uchaf o gymorth a chyfraniad staff arnynt, mewn perthynas â'u hwyl a'u hymddygiad.

Nid oedd rheoli poen yn broblem graidd ar gyfer y grŵp cleifion a welsom ar Ward Clywedog. Roedd staff yn gyfarwydd ag offer monitro poen, ac roeddent yn ei ddefnyddio os oedd poen yn dod yn broblem.

Gwelsom gleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain, a chanfuom fod y staff yn ystyrlon ac yn cynnis lefel uchel o gymorth ystyriol i helpu cleifion i gynnal eu hylendid personol, gan annog iddynt ymfalchïo yn eu hymddangosiad hefyd.

Anogir cleifion i fwyta yn yr ystafell fwyta. Mae'r staff yn annog ymwelwyr i ddod os yw eu presenoldeb yn ystod amser bwyd yn gadarnhaol i gleifion. Mae'r staff yn cefnogi cleifion yn agos yn ystod amser bwyd, ac maent yn cynnig diodydd drwy'r dydd. Ar y cyfan, roeddem yn teimlo bod anghenion maethol yn cael eu rheoli'n dda.

Roedd anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu, ac roedd staff yn gallu atgyfeirio cleifion at ddeintydd ar y safle os oedd angen.

Gwelsom fod angen adnewyddu'r cyfleusterau toiled, a nodwyd hefyd bod cordiau hir ar gyfer y larwm yn y naill doiled ond nid oedd rhai yn y llall. Rydym yn cydnabod y bydd y gwaith ailwampio sy'n mynd rhagddo yn mynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth o offer lliniaru pwysau ar gael. Roedd y ward yn arddangos gwybodaeth a oedd yn nodi nad oedd llawer o achosion o friwiau pwysu'n datblygu ymhlith y cleifion a oedd wedi derbyn gofal ynddi.

Gwelsom dîm staff profiadol ac ymroddedig a oedd yn ymfalchïo mewn darparu gofal unigoledig sy'n canolbwyntio ar y claf. Gwnaethom nodi y gallai'r tîm newid yn sylweddol (a lleihau) dros y ddwy neu dair blynedd nesaf o ganlyniad i staff yn ymddeol. Nid oeddem yn hyderus bod cynlluniau ynghylch anghenion y gweithlu wedi cael eu paratoi ymlaen llaw er mwyn mynd i'r afael â hyn cyn iddo ddod yn broblem sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar Ward Clywedog.

Gwnaethom nodi sawl pryder ynghylch pa mor ddjarffordd oedd uned Clywedog a'r lefel isel o argaeledd meddygol, yn ogystal â diffyg cymorth clir wrth gefn ar y safle y gallai'r staff ei ddefnyddio mewn achos brys. Er bod gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi meddyginiaeth, roedd y systemau ar gyfer storio a chynnal y stoc ddiweddaraf yn wael, ac nid oeddent yn lleihau'r risg i gleifion yn ddigonol.

## WARD ELAN

Gwnaethom dderbyn adborth eithriadol o ganmoliaethus gan gleifion ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd gan y tîm ar Ward Elan a hefyd ynghylch effeithlonrwydd y llwybr llawdriniaeth ddydd a ddarparwyd iddynt yn yr ysbyty.

Mae rhai agweddau ar hanfodion gofal nad ydynt yn berthnasol i gleifion sy'n cael llawdriniaeth ddydd ac yn aros am gyfnod byr yn unig. Fodd bynnag, lle roeddent yn berthnasol, gwelsom staff yn darparu lefelau uchel o ofal. Yn anffodus, nid yw amgylchedd y ward yn galluogi staff i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion bob amser, am fod y ward ôl-driniaethol hefyd yn goridor a ddefnyddir i gyrraedd yr uned dialysis gyfagos.

Ar y ward llawdriniaeth ddydd hon, cyfathrebir gyda'r nod o roi digon o gyngor a gwybodaeth i gleifion fod yn ddigon hyderus i gael eu rhyddhau adref yn fuan ar ôl cael llawdriniaeth.

Ar gyfer rhai agweddau ar ofal llawdriniaeth ddydd i gleifion, canfuom fod y staff yn gallu cynnig urddas a phreifatrwydd llawn i gleifion. Fodd bynnag, roeddem yn eithriadol o bryderus ynghylch y ffaith bod gofal ôl-driniaethol yn cael ei ddarparu mewn ystafell sydd, yn ei hanfod, yn goridor i'r uned dialysis, ac yn dramwyfa brysur i gleifion ar adegau penodol o'r dydd.

Rhoddir cymaint o wybodaeth â phosibl i gleifion cyn ac ar ôl iddynt gael llawdriniaeth er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau a'u gwneud yn ddigon hyderus i ofalu am eu hunain gartref.

Nid oedd amseroedd ymweld penodol, ond gwelsom lif rheolaidd o berthnasau a chyfeillion yn dod â chleifion i'r ward a'u casglu. Mae llif ychwanegol o gleifion sy'n cerdded drwy'r ward i gyrraedd yr uned dialysis drws nesaf.

Mae'r ward yn brysur, gyda chleifion yn cael eu cymryd i'r theatr ac yn ôl. Mae'r staff wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i geisio lleihau'r sŵn ychwanegol o gleifion a phobl eraill sy'n ymweld â'r uned dialysis gyfagos.

Roedd staff yn monitro poen ôl-driniaethol, ac roedd gan y ward stôr o feddyginiaeth i leddfu poen ôl-driniaethol, a hefyd stôr o feddyginiaeth lleddfu poen a oedd yn cael ei dosbarthu i gleifion fynd â hi adref.

Ar yr achlysur hwn, ni archwiliwyd y ddarpariaeth o ran hylendid personol, ymddangosiad, a gofal traed ar Ward Elan.

Nid oes angen mawr am fwyd a diod ar Ward Elan, felly ni wnaethom ymchwilio i'r mater hwn yn fanwl. Ar Ward Elan, mae'r cleifion o dan drefn 'dim trwy'r geg' cyn llawdriniaeth, a chynigir diod boeth a byrbryd iddynt cyn eu rhyddhau adref.



Ni wnaethom ymchwilio i hylendid y geg ar Ward Elan.

Dim ond ychydig o amser y mae cleifion yn ei dreulio ar Ward Elan. Gan nad oes cleifion yn aros dros nos ar y ward, ni wnaethom arolygu gofal ymataliaeth ar yr achlysur hwn. Ni wnaethom ymchwilio i faterion yn ymwneud ag atal briwiau pwyso ar Ward Elan.

Gwelsom dîm staff brwdfrydig a hyblyg gydag arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gan yr arweinydd tîm ar y safle. Roeddem yn teimlo bod y gwaith o reoli'r gwasanaeth a ddarperir yn gymhleth ac yn llethol, a gwnaethom gwestiynu p'un a oedd gradd yr arweinydd tîm ar y safle yn adlewyrchu natur ymreolus y gwaith a oedd yn cael ei wneud.

Ni wnaethom ganolbwyntio ar reoli risg tra oeddem ar Ward Elan, ond gwnaethom edrych yn fras ar drefniadau storio meddyginiaeth. Canfuom fod cyflenwadau'n cael eu cadw'n daclus iawn a bod yr holl gofnodion yn glir a chyfoes. Gwelsom hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn ceisio meithrin cydnerthedd ledled eu dau safle llawdriniaeth ddydd ym Mhowys drwy gael polisïau a gweithdrefnau safonol sy'n galluogi staff i weithio yn y naill uned neu'r llall.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

#### Casgliad

#### **WARD CLYWEDOG**

**Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ac yn ymroddedig i ddarparu cymorth cydwybodol agos i gleifion ac i gynnig gweithgareddau ystyrllon er mwyn helpu i wella annibyniaeth a hybu cyfforddusrwydd cleifion yn ystod eu hamser ar y ward. Roedd y ward yn cael ei hailwampio tra oeddem yn bresennol, ac roedd sŵn sylweddol yn dod o'r gwaith adeiladu; fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd hyn yn cynhyrfu'r pedwar claf a oedd ar y ward.**

Roedd y ward yn ymddangos yn lân ac yn daclus, er bod angen ei moderneiddio a'i hailaddurno i'w gwneud yn fwy addas i bobl â dementia. Roedd ystafelloedd cleifion yn lleoedd ymarferol, naill ai'n sengl, dwbl neu'n driphlyg, ac nid oedd llawer o dystiolaeth o bersonoli. Ni fyddai personoli'r ystafelloedd hyn yn hawdd ychwaith.

#### ***Argymhelliad***

***Dylai tîm y ward ystyried sut gellid personoli ystafelloedd cleifion er mwyn gwneud manau unigol yn fwy cartrefol.***

Roedd modd inni siarad yn anffurfiol â dau glaf ar Ward Clywedog, a gwnaethom ddefnyddio ein holiadur safonedig i ysgogi'r trafodaethau lle'n bosibl. Rhoddwyd adborth cadarnhaol i ni yn ystod y trafodaethau hyn; dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn ddymunol a bod y bwyd yn dda ac yn boeth, ond dywedwyd hefyd nad oedd llawer o ddewis.

Roedd yn ymddangos bod y staff yn adnabod cleifion unigol, a'u hoffterau a chasbethau, yn dda. Roeddem yn gallu gweld bod y staff wedi meithrin perthynas dda â'r cleifion, o arsylwi ar y rhyngweithio rhyngddynt.

Adeg ein harolygiad, dim ond pedwar claf oedd yn bresennol ar y ward, ond cynyddodd hyn i bump ar ôl derbyn claf ar yr ail ddiwrnod. Roedd un ystafell ar gau oherwydd gwaith ailwampio, felly cyfyngwyd ar nifer y cleifion. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybodaeth anghyson inni gan dîm y ward ynghylch nifer wirioneddol y lleihad mewn lleoedd i gleifion. Ar ôl cynnal ein trafodaethau, nid oeddem yn deall yn glir p'un ai saith neu wyth oedd uchafswm y cleifion y gellid eu derbyn i'r ward (yn hytrach na deg, sy'n arferol) yn ystod y gwaith adeiladu.

Tra oeddem yn bresennol ar y ward, roedd sŵn y gwaith adeiladu yn creu aflonyddwch sylweddol, ond anogwyd cleifion i dreulio amser ar ochr arall y ward, ac roedd yn ymddangos nad oedd y sŵn yn eu poeni. Fodd bynnag, pe bai nifer y cleifion yn cynyddu i saith neu wyth yn ystod y gwaith hwn, byddai llai o le i gleifion yn y ddwy ystafell ddydd, a byddai gan staff lai o amser i gynnal y lefel uchel o gymorth un i un a welsom yn ystod ein harolygiad.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno i AGIC gopïau o'r broses a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniad ynghylch nifer y gwelyau i'w cadw ar agor yn ystod y gwaith ailwampio, yn ogystal â'r asesiadau risg cysylltiedig.***

## **WARD ELAN**

**Gwnaethom dderbyn adborth eithriadol o ganmoliaethus gan gleifion ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd gan y tîm ar Ward Elan a hefyd ynghylch effeithlonrwydd y gofal llawdriniaeth ddydd a ddarparwyd iddynt yn yr ysbyty.**

Gwnaethom siarad hefyd â nifer o gleifion a pherthnasau a oedd ar gael ac yn fodlon siarad â ni yn ystod y cyfnod byr y gwnaethom dreulio ar Ward Elan. Dywedodd cleifion wrthym fod y cyfnod rhwng gweld y meddyg yn y clinig a chael eu cymryd i'r ward ar gyfer eu llawdriniaeth yn fyr, a'u bod yn hoff o'r ffaith eu bod wedi gweld yr un staff nyrsio yn y clinig, eto mewn apwyntiadau cyn asesiad, ac yna'n gweithio ar y ward.

Gwelsom fod y staff yn hyblyg, ac ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad, roeddent wedi gwneud lle i glaf gael llawdriniaeth frys ac wedi addasu eu horiau gwaith er mwyn gallu gofalu am y claf ar ôl ei llawdriniaeth. Roedd hyblygrwydd y dull hwn yn golygu y gallai rhai cleifion brofi oedi anrhagweledig wrth aros am eu hasesiadau cyn-llawdriniaeth, sydd hefyd yn cael eu gwneud gan y staff sy'n gweithio yn y ward ôl-driniaethol. Gwnaethom siarad ag un claf y digwyddodd hyn iddo; ni chafodd ei hysbysu am y rheswm dros yr oedi, ac ni roddwyd dewis iddo ddychwelyd i'r ward ar adeg arall ychwaith.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r ward osod arwyddion yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion bod posibilrwydd o oedi os oes angen gwneud lle ar gyfer achosion brys. Rhaid hefyd atgoffa staff y ward bod yn rhaid iddynt roi gwybod i gleifion am bryd gallant ddisgwyl gweld rhywun.***

## **Cyflenwi Hanfodion Gofal**

### **Casgliad Troswaol**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Ar y cyfan, canfuom fod y staff yn darparu lefelau uchel o ofal ar draws pob maes yn ymwneud â hanfodion gofal, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfathrebu cryf a hybu annibyniaeth cleifion.**

#### **WARD ELAN**

**Mae rhai agweddau ar hanfodion gofal nad ydynt yn berthnasol i gleifion sy'n cael llawdriniaeth ddydd ac yn aros am gyfnod byr yn unig. Fodd bynnag, lle roeddent yn berthnasol, gwelsom staff yn darparu lefelau uchel o ofal. Yn anffodus, nid yw'r amgylchedd yn galluogi staff i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion bob amser, am fod y ward ôl-driniaethol hefyd yn goridor i gyrraedd yr uned dialysis gyfagos.**

### **Cyfathrebu a gwybodaeth**

*Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom staff yn rhoi pwyslais cryf ar bennu amser i siarad â'u cleifion. Gwelsom hefyd yn y cynlluniau gofal cynhwysfawr a ddefnyddir gan dîm y ward fod hon yn agwedd bwysig ar y gofal.**

Mae gan Ward Clywedog uchafswm o ddeg o leoedd ar gyfer asesu cleifion henoed bregus eu meddwl. Yn ystod ein harolygiad, dim ond pedwar claf oedd ar y ward (gan gynyddu i bump yn ystod yr ail ddiwrnod), ac felly roedd cymhareb y staff yn darparu eu gofal yn uwch na'r arfer. Gwnaeth ein harsylwadau dynnu sylw at dîm a oedd yn rhoi amser i gyfathrebu â chleifion. Gwelsom gymorth agos yn cael ei roi i gleifion.

Roedd y ward yn cael ei hailwampio, a dywedodd rheolwr y ward wrthym fod hyn yn mynd i gael ei ddefnyddio fel cyfle i wella'r amgylchedd a'i wneud yn haws i gleifion sydd wedi drysu i ddeall yr hyn sydd o'u cwmpas. Rhoddwyd enghreifftiau fel sicrhau bod gorchudd y llawr yr un lliw ym mhob man, a pheintio drysau mewn lliwiau penodol. Mae addasu'r amgylchedd fel hyn yn

gyson â mentrau arferion gorau cyfredol ar gyfer gofalu am gleifion sydd wedi drysu neu sydd â dementia. <sup>1</sup>

Caiff tîm y ward ar Ward Clywedog ei gefnogi gan therapydd galwedigaethol pum niwrnod yr wythnos. Gwelsom yr aelod o staff hwn yn gweithio'n rhagweithiol ochr yn ochr â staff a chleifion ar y ward, a dywedwyd wrthym ei bod yn hanfodol o ran helpu staff i ddod o hyd i ddatrysiadau os oedd cleifion ag anghenion cyfathrebu penodol ar Ward Clywedog.

## **WARD ELAN**

**Ar y ward llawdriniaeth ddydd, cyfathrebir gyda'r nod o roi digon o gyngor a gwybodaeth i gleifion fod yn hyderus i gael eu rhyddhau adref yn fuan ar ôl cael llawdriniaeth.**

Mae Ward Elan yn darparu llawdriniaeth ddydd i gleifion sydd wedi cael eu hasesu fel cleifion sy'n addas i gael triniaeth mewn ysbyty cymunedol. Yn gyffredinol, mae'n darparu ar gyfer oedolion sy'n hŷn na 18 oed ac yr aseswyd bod ganddynt y risg isaf o gael problemau ôl-driniaethol. Cyfathrebir ar y ward gyda'r nod o roi digon o wybodaeth a hyder i gleifion fel y gallant gael eu rhyddhau adref yn ddiogel ar ôl cael llawdriniaeth.

Mae staff ar Ward Elan yn edrych ar ôl cleifion trwy gydol eu siwrne drwy llawdriniaeth ddydd – o'u hapwyntiad cychwynnol yn y clinig, drwy i'r llawdriniaeth ei hun, ac yna cael eu rhyddhau adref. Dywedwyd wrthym gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn canfod y gwasanaeth a ddarperir gan staff Ward Elan yn ardderchog, ac un enghraifft o hyn yw'r galwad ffôn dilynol y mae'r staff yn ei ddarparu i gleifion ddiwrnod ar ôl eu llawdriniaeth. Maent yn defnyddio hyn fel cyfle i weld beth yw cyflwr y claf ac i roi rhagor o gyngor ac arweiniad ôl-driniaethol.

Gwnaethom nodi bod aelodau staff a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg.

---

<sup>1</sup> Er enghraifft: 'Is Your Ward Dementia Friendly', The King's Fund, 2014

## **Parchu pobl**

*Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.*

## **Casgliad**

### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom staff yn ymddwyn yn barchus ac yn garedig tuag at y cleifion yn eu gofal. Cawsom hefyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion a ddywedodd wrthym fod y staff yn ddymunol.**

Mae Ward Clywedog yn fach a chanddi le ar gyfer deg o gleifion mewn cyfuniad o ystafelloedd sengl, dwbl neu driphlyg. Adeg ein harolygiad, roedd rhai gwelyau ar gau wrth i waith ailwampio'r ward fynd rhagddo.

Roedd staff meddygol yn bresennol ar ddiwrnod ein harolygiad, a gwelsom staff yn helpu cleifion i fynd yn ôl i'w hystafelloedd eu hunain neu i ofod preifat er mwyn i sgysiau neu asesiadau gael eu cynnal mor breifat â phosibl.

Mae dau doiled ar y ward at ddefnydd cleifion, un i fenywod ac un i ddynion. Mae'r toiled i ferched hefyd yn cynnwys y bath, ac felly er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau, mae gan y ward ddiwrnodau bath penodedig i ddynion neu fenywod, a chaiff y toiledau eu cyfnewid fel nad oes angen i'r ddau ryw eu defnyddio ar yr un pryd. Gwnaethom nodi nad oedd arwyddion amgen i'w defnyddio ar y diwrnodau hyn, a gallai hyn ychwanegu at ddryswch rhai cleifion.

## ***Argymhelliad***

***Darparu arwyddion amgen i'r staff eu harddangos ar ddrysau ystafelloedd sydd o reidrwydd yn ystafelloedd amldefnydd.***

### **WARD ELAN**

**Roeddem yn eithriadol o bryderus ynghylch y ffaith bod y man gofal ôl-driniaethol, yn ei hanfod, yn goridor i'r uned dialysis drws nesaf. Ar adegau penodol o'r dydd, mae'n dramwyfa brysur i gleifion.**

Mae cleifion yn mynychu Ward Elan ar gyfer asesiadau cyn-llawdriniaeth a gynhelir yn breifat mewn swyddfa / ystafell glinig ar y ward. Caiff rhai triniaethau

(megis colposgopi) a wneir ar y ward eu gwneud mewn ystafelloedd triniaeth preifat hefyd.

Mae'r ward yn cynnwys pum troli sy'n wynebu ei gilydd. Rhaid i gleifion sy'n mynychu'r ysbyty ar gyfer dialysis arenol gerdded drwy'r ward, heibio'r gwelyau, gan fod hon yw'r unig ffordd o gyrraedd yr uned dialysis.

Tra bod cleifion yn gwella ar ôl llawdriniaeth, mae'r staff yn eu cadw mewn golwg bob amser, ac nid ydynt yn rhoi sgrin o'u cwmpas. Dywedodd staff wrthym ei fod yn hanfodol iddynt bob amser allu gweld cleifion sy'n gwella am resymau diogelwch, gan fod posibilrwydd y gallent ddirywio'n sydyn ac yn gyflym ar ôl cael llawdriniaeth. O ganlyniad, dywedodd staff wrthym fod rhai achlysuron lle cafodd preifatrwydd cleifion a oedd yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth ei danseilio'n uniongyrchol gan gyswllt digroeso â phobl a oedd yn pasio trwy'r uned drws nesaf. Mae rheolwyr y ward wedi gofyn i gleifion sy'n mynd at yr uned dialysis beidio â siarad â chleifion llawfeddygol sy'n gwella wrth iddynt basio trwy'r ward. Fodd bynnag, nid oeddem yn teimlo bod hyn yn mynd i'r afael â'r mater yn ddigonol.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad o ardal Ward Elan, gan ganolbwyntio ar breifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion. Mae'n bosibl hefyd bod materion i'w hystyried yn ymwneud â rheoli heintiau mewn perthynas ag agosrwydd cyflenwad dŵr y dialysis, a dylid archwilio i'r rhain. Rhaid anfon copi o ganlyniad yr adolygiad hwn at AGIC, ynghyd â'r cynllun gweithredu dilynol a gynhyrchir i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gennym.***

### **Hybu annibyniaeth**

*Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.*

### **Casgliad**

### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom staff yn gweithio'n galed fel tîm i gefnogi a hybu annibyniaeth y cleifion a oedd yn derbyn gofal ganddynt. Roedd gan staff fynediad at ystod eang o adnoddau yr oeddent yn gallu eu defnyddio i gynyddu annibyniaeth cleifion gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd.**

Yn ystod ein hymweliad, dim ond pedwar claf oedd ar y ward, a gwelsom fod y gymhareb staff i gleifion o ganlyniad i hyn wedi galluogi cleifion i gael lefel uchel o gymorth gan staff, ac roedd pob un ohonynt yn ymddangos yn gyfforddus ac yn ymlaciedig yn eu hamgylchedd.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom gleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain ac yn gwneud gwahanol weithgareddau â'r staff. Roedd un aelod o staff yn defnyddio hambyrddau â gwahanol wrthrychau er mwyn annog cyffwrdd ac adnabod gwrthrychau; roedd un arall yn helpu claf i ddarllen papur newydd.

Roedd ystafell ddydd fawr gydag amrywiaeth o seddi cyfforddus wedi eu trefnu mewn ffordd ystyriol er mwyn i nifer o gleifion allu eistedd a gwneud gwahanol bethau. Gwelsom hefyd amrywiaeth o bapurau newydd, cylchgronau, teledu, a bag o offer gwau, ac roedd y rhain i gyd yn hygyrch i'r cleifion. Roedd pryddau yn cael eu gweini yn ystafell fwyta'r ward; roedd hyn hefyd yn fawr ac yn helaeth, gyda byrddau a chadeiriau mewn un rhan ohoni yn ogystal â rhan fwy cyfforddus ar gyfer eistedd.

Roedd cynlluniau gofal yn dangos bod y staff yn gallu nodi anghenion unigol yn effeithiol, gan deilwra'r gofal yr oeddent yn ei ddarparu i wneud cleifion mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod staff yn defnyddio'r fenter 'Dyma Fi'<sup>2</sup> i'w helpu i ddeall eu cleifion fel unigolion.

## **WARD ELAN**

**Rhoddir cymaint o wybodaeth â phosibl i gleifion cyn ac ar ôl iddynt gael llawdriniaeth er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau a'u gwneud yn ddigon hyderus i ofalu am eu hunain gartref.**

Caiff addasrwydd cleifion i dderbyn llawdriniaeth ddydd ar Ward Elan ei asesu'n ofalus iawn, a chynigir llawdriniaeth i'r rhai yr ystyrir bod ganddynt risg isel o gymhlethdodau a lefelau da o gymorth ac annibyniaeth gartref yn unig.

Gwelsom gleifion ôl-driniaethol yn cael eu hannog i fod ar eu traed ac i symud o gwmpas cyn gynted â phosibl ar ôl cael llawdriniaeth. Roedd staff yn arsylwi ar

---

<sup>2</sup>Mae 'Dyma Fi' yn ddull syml ac ymarferol a lanswyd gan y Gymdeithas Alzheimer's sy'n galluogi pobl â dementia i ddweud wrth staff am eu hanghenion, dymuniadau, hoffbethau, casbethau, a'u diddordebau.



gleifion yn agos ac yn eu cynorthwyo yn ystod eu harhosiad byr ar y ward, a gwelsom eu bod yn treulio amser yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gleifion i'w helpu i ddychwelyd i fyw'n annibynnol mor ddiogel ac mor gyflym â phosibl ar ôl llawdriniaeth.

## **Perthnasau**

*Rhaid annog pobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.*

## **Casgliad**

### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom fod staff yn annog teuluoedd a chyfeillion i chwarae rhan weithredol os yw hynny'n fuddiol i'r claf.**

Mae amserau ymweld ar y ward yn agored ac yn hyblyg er mwyn i aelodau teulu a chyfeillion allu ymweld mor aml â phosibl. Roedd un ystafell ar y ward a oedd yn addas i berthnasau / cyfeillion aros dros nos os oedd angen, a chadarnhaodd staff fod y cyfleusterau hyn wedi cael eu defnyddio sawl gwaith. Roedd cyfleusterau ymolchi yn yr ystafell, ac roedd lle ar gyfer cadair ogwyddol neu wely ychwanegol. Roedd yn cael ei hailwampio yn ystod ein hymweliad, felly nid oedd modd inni weld yr ystafell wedi'i threfnu'n barod i'w defnyddio.

Os nad oes ymwelwyr gan gleifion, mae'r staff nyrsio a'r therapydd galwedigaethol yn gallu defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau er mwyn annog cymaint o ryngweithio ystyrlon â phosibl.

### **WARD ELAN**

**Nid oedd amseroedd ymweld penodol, ond gwelsom lif rheolaidd o berthnasau a chyfeillion yn dod â chleifion i'r ward a'u casglu. Mae llif ychwanegol o gleifion sy'n cerdded drwy'r ward i gyrraedd yr uned dialysis drws nesaf.**

Gan fod y ward ar gyfer llawdriniaeth arhosiad byr yn unig, mae perthnasau neu gyfeillion yn casglu cleifion o'r ward unwaith iddynt fod yn barod i gael eu rhyddhau adref. Gwelsom staff nyrsio'n rhoi cyngor ôl-driniaethol sylfaenol i gleifion a'u perthynas neu gyfaill wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ward.

Mae uned dialysis drws nesaf i Ward Elan, a rhaid cerdded drwy'r ward i'w chyrraedd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cadw cleifion mewn golwg er mwyn darparu gofal ôl-driniaethol diogel, ac nid ydynt yn rhoi sgrin o gwmpas eu gwelyau. Dywedwyd wrthym fod yna wedi bod adegau pan welwyd cleifion gan bobl na fyddent fel arall wedi dewis hysbysu am eu llawdriniaeth.

### ***Argymhelliad***

***Ailystyried trefniadau'r ward a'r uned dialysis gyfagos er mwyn parchu dewis cleifion i gadw eu triniaeth ar Ward Elan yn gyfrinach.***

### **Gorffwys, cysgu a gweithgareddau**

*Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Roedd staff yn defnyddio'r amryw fannau cymunol i helpu i gadw'r amgylchedd yn dawel ac yn llonydd i gleifion. Roedd ystafell sengl a ddefnyddid i gleifion yr oedd angen y lefel uchaf o gymorth a chyfraniad staff arnynt, mewn perthynas â'u hwyl a'u hymddygiad.**

Dyweddodd staff wrthym fod trefniadau arferol o ddydd i ddydd yn ystyried ceisio cael cyfnodau tawel lle'n bosibl. Roedd y gymhareb o staff i gleifion yn golygu bod modd cymryd cleifion allan i'r dref leol neu am dro bach y tu allan, er na welsom dystiolaeth o hyn yn uniongyrchol tra oeddem yn bresennol ar y ward.

Mae teledu a radio ar y ward, ond dywedodd staff wrthym eu bod yn caniatáu i gleifion ddod â'u rhai eu hunain os oeddent yn dymuno felly.

Adeg ein harolygiad, roedd y tîm ar Ward Clywedog yn cynnwys nifer o staff a oedd wedi gweithio ym maes gofal dementia ers blynyddoedd lawer, ac roedd yn glir eu bod yn brofiadol a hyderus wrth gefnogi cleifion â dryswch a dementia i fod mor ddigynnwrf a gweithgar â phosibl, ac felly'n tarfu ar gleifion eraill cyn lleied â phosibl.

Mae ystafelloedd cleifion naill ai'n sengl, dwbl neu'n driphlyg, ac yn gymharol fach, heb lawer o ofod personol. Mae'r ddwy ystafell ddydd fawr wedi eu lleoli i

ffwrdd o'r manau cysgu, a gall cleifion eu defnyddio fel gofod tawel / amgen os oes angen.

Mae gardd gaeedig a arddluniwyd mewn ffordd ddeniadol nesaf at y ward; dywedodd staff wrthym fod cleifion yn mwynhau mas draw ynnddi pan oedd y tywydd yn caniatáu.

Yn ystod ein hymweliad, roedd lefel y sŵn a oedd yn dod o'r gwaith adeiladu i ailwampio'r ward yn eithriadol o uchel. Dywedwyd wrthym fod y gwaith drilio mwyaf swnllyd yn digwydd tra oeddem yno, ac y byddai'r gwaith yn llai swnllyd ar ôl cwblhau'r dasg benodol honno. Canfuom fod y sŵn yn eithafol a'i fod yn ei wneud yn anodd canolbwyntio. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd hyn yn cynhyrfu'r cleifion. Nid oedd gan reolwr y ward gopiâu o'r asesiadau risg nac amserlen o'r gwaith adeiladu ar gael inni eu gweld.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod rheolwyr wardiau'n cael asesiadau risg ac amserlen ysgrifenedig o waith adeiladu.***

### **WARD ELAN**

**Mae'r ward yn brysur, gyda chleifion yn cael eu cymryd i'r theatr ac yn ôl drwy gydol y dydd. Mae sŵn ychwanegol o gleifion ac ymwelwyr eraill sy'n cerdded drwy Ward Elan er mwyn cyrraedd yr uned dialysis drws nesaf, ac mae staff wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i geisio lleihau'r aflonyddwch hwn cymaint â phosibl.**

Mae'r ward yn brysur gyda gweithgarwch parhaus. Gwelsom fod gan staff ddigon o ddillad gwely a blancedi i'w defnyddio i gadw cleifion yn gyfforddus wrth iddynt wella ar ôl eu llawdriniaeth.

Cytunodd rheolwr y ward y byddai dosbarthu nwyddau i'r uned dialysis drws nesaf yn cael ei wneud cyn i'r ward agor am 8 a.m. neu ar ôl iddi gau am 6 p.m. yn unig. Gan mai hon yw'r unig ffordd o gyrraedd yr uned dialysis ar hyn o bryd, ni ddaethpwyd o hyd i ffordd o leihau'r sŵn sy'n gysylltiedig â'r trefniadau angenrheidiol o gael cleifion yn cerdded drwy'r ward.

### ***Argymhelliad***

***Fel y crybwyllwyd eisoes, mae cael cleifion yn cerdded drwy Ward Elan at yr uned dialysis yn ychwanegu at y sŵn, a rhaid ystyried effaith hyn wrth gynnal yr adolygiad o'r ward.***

## **Sicrhau cysur a lleddfu poen**

*Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus a rhydd rhag poen ac y mae eu hamgylchiadau yn ei ganiatáu.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Nid oedd rheoli poen yn broblem graidd ar gyfer y grŵp cleifion a welsom ar Ward Clywedog. Fodd bynnag, roedd staff yn gyfarwydd ag offer monitro poen, ac roeddent yn ei ddefnyddio os oedd poen yn dod yn broblem.**

Roedd y cleifion ar Ward Clywedog yn cael cymorth ac asesiad manwl o ddrwsych a dementia. Roedd eu prif broblemau'n ymwneud â hwyliau, gwybyddiaeth, a'r effaith mae'r rhain yn eu cael ar eu gallu i weithredu mewn bywyd bob dydd. Gwelwyd staff yn darparu lefelau uchel o gymorth emosiynol a chymorth i wella sgiliau byw'n annibynnol. Roedd y cynlluniau gofal a welsom yn nodi mai'r elfennau emosiynol a gwybyddol o ofal sy'n cael y flaenoriaeth fwyaf, ond gwelsom fod staff yn edrych i weld a oedd cleifion yn teimlo poen ac yn gweithredu i wella unrhyw boen a nodwyd neu a ddangoswyd gan gleifion.

#### **WARD ELAN**

**Roedd staff yn monitro poen ôl-driniaethol, ac roedd gan y ward stôr o feddyginiaeth i leddfu poen ôl-driniaethol. Roedd hefyd stôr o feddyginiaeth lleddfu poen a oedd yn cael ei dosbarthu i gleifion fynd â hi adref.**

Tra oeddem yn arsylwi ar y ward, gwelsom gleifion yn gwella ar ôl llawdriniaeth, ac roedd yn ymddangos eu bod yn gyfforddus ac nid mewn poen. Roedd staff yn monitro lefelau cysur a phoen ac yn defnyddio dogfennau i gofnodi ac ategu eu harsylwadau.

## **Hylendid personol, ymddangosiad a gofal traed**

*Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.*

## Casgliad

### WARD CLYWEDOG

**Gwelsom gleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain, a chanfuom fod y staff yn ystyrllon ac yn cynnig lefel uchel o gymorth ystyriol i helpu cleifion i gynnal eu hylendid personol, gan annog iddynt ymfalchïo yn eu hymddangosiad hefyd.**

Wrth inni gyrraedd Ward Clywedog, tua 11 a.m., roedd yr holl gleifion wedi codi ac wedi gwisgo, ac wrthi'n gwneud gwahanol weithgareddau.

Nid oes peiriant golchi ar y ward ar hyn o bryd, ac felly mae teuluoedd yn gyfrifol am olchi dillad. Mae gan bob claf fasged olchi lle caiff dillad brwnt ei storio nes i'r teuluoedd ei gasglu. Dywedodd rheolwr y ward wrthym nad oedd wedi cael unrhyw gleifion heb gyfaill neu berthynas a oedd yn gallu golchi eu dillad iddynt. Fodd bynnag, roeddent yn bwriadu gosod peiriant golchi ar y ward fel rhan o'r gwaith ailwampio er mwyn gallu darparu dillad glân yn ôl yr angen. Roedd stôr helaeth o ddillad gwely ysbyty ar gael, a dosbarthir dillad gwely glân bob dydd.

Dim ond dau doiled sydd ar y ward, ac mae'r unig fâth ar y ward wedi'i leoli yn nhoiledau'r menywod. Mae gan y ward ddiwrnodau ymolchi penodedig ar gyfer naill ai ddynion neu fenywod, a golyga hyn nad oes defnydd rhyw cymysg o'r ystafell.

Dywedodd staff wrthym fod gwasanaethau trin traed ar gael i gleifion, a bod modd eu hatgyfeirio i wasanaeth trin traed Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, a fydd yna'n ymweld â nhw drwy system apwyntiadau.

Gwelsom staff yn cynnig sychu a modrwyo gwallt cleifion benywaidd er mwyn helpu i gynnal eu hymddangosiad personol. Os oes angen torri gwallt cleifion, dywedwyd wrthym bod staff yn eu cynorthwyo i ymweld â pherson trin gwallt yn y dref gyfagos.

### WARD ELAN

**Ar yr achlysur hwn, ni archwiliwyd y ddarpariaeth o ran hylendid personol, ymddangosiad a gofal traed ar Ward Elan.**

## **Bwyta ac yfed**

*Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Anogir cleifion i fwyta yn yr ystafell fwyta. Mae'r staff yn annog ymwelwyr i ddod os yw eu presenoldeb yn ystod amser bwyd yn gadarnhaol i gleifion. Mae'r staff yn cefnogi cleifion yn agos yn ystod amser bwyd, ac maent yn cynnig diodydd drwy'r dydd. Ar y cyfan, roeddem yn teimlo bod anghenion maethol yn cael eu rheoli'n dda.**

Caiff bwyd ei ddsbarthu i'r ward ar droli o brif gegin yr ysbyty, ac yna mae'r staff yn gweini dewisiadau'r cleifion iddynt. Dywedodd staff y ward wrthym fod cleifion yn cael dewis ynglŷn â lle i fwyta, ond maent yn cael eu hannog, os yn bosibl, i fwyta yn ystafell fwyta'r ward. Dyma lle gwelsom yr holl gleifion yn bwyta eu pryd bwyd yn ystod ein hymweliad. Roedd yr ystafell fwyta'n lân ac yn weithredol, a gosodwyd cyllyll a ffyrc a napcynau papur ar y byrddau cyn gweini'r bwyd. Gwelsom fod cleifion yn cael dewis o ddau brif bryd bwyd poeth gyda llysiau neu salad. Ni ofynnwyd i gleifion faint o fwyd yr hoffent ei gael, ac yn ystod yr amser bwyd a welsom, roedd pob un o'r cleifion yn gorffen eu bwyd. Er bod rhagor o fwyd ar ôl ar y troli, ni chynigiwyd ail blatiad iddynt.

### **Argymhelliad**

***Dylid cynnig rhagor o fwyd i gleifion os ydynt wedi gorffen eu pryd bwyd ac mae rhagor ar gael.***

Mae amserau ymweld ar y ward yn hyblyg, ac mae staff y ward yn annog ymwelwyr i ddod mor aml ag sy'n fuddiol a llesol i'r cleifion. Nid yw amserau pryd bwyd o reidrwydd yn cael eu gwarchod am fod staff wedi dweud wrthym y gallai fod yn well i gleifion gael cwmni a chefnogaeth gan berthnasau a chyfeillion wrth fwyta.

Ni roddir jygiau dŵr unigol i gleifion ar Ward Clywedog yn rheolaidd; dywedodd staff y ward wrthym mai'r rheswm am hyn oedd bod angen iddynt gael eu hannog i yfed mewn llawer o achosion, ac mae'n bosibl na fyddai hyn bob amser yn briodol yn sgil eu cyflwr. Gwelsom gleifion yn cael cynnig diodydd, ac yn cael diodydd poeth yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

Gwelsom offer sgrinio maeth a siartiau bwyd yn cael eu defnyddio lle roedd cleifion wedi colli pwysau neu le nad oeddent wedi bwyta llawer, ond nid oedd y

rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cynorthwyo cleifion yn agos iawn i fwyta ac yfed drwy gydol y dydd. Dywedwyd wrthym eu bod yn canfod bod y dull hwn yn diwallu anghenion cleifion ac yn eu galluogi i gynnal a gwella eu maeth.

## **WARD ELAN**

**Nid oes angen mawr am fwyd a diod ar Ward Elan, felly ni wnaethom ymchwilio i'r mater hwn yn fanwl. Ar Ward Elan, mae'r cleifion o dan drefn 'dim trwy'r geg' cyn llawdriniaeth, a chynigir diod boeth a byrbryd iddynt cyn eu rhyddhau adref.**

### **Iechyd a hylendid y geg**

*Rhaid cefnogi pobl i gadw eu cegau'n iach ac yn gyfforddus, a'u dannedd a'u deintgig yn rhydd o boen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.*

## **Casgliad**

### **WARD CLYWEDOG**

**Roedd anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu, ac roedd staff yn gallu atgyfeirio cleifion at ddeintydd ar y safle os oedd angen.**

Roedd stôr o frwsys dannedd ar gael, a photiau er mwyn storio dannedd gosod yn ddiogel a'u glanhau. Dywedodd staff wrthym fod gwasanaethau deintyddol ar gael ar brif safle'r ysbyty a bod modd atgyfeirio cleifion Ward Clywedog iddynt os oes angen.

Gwelsom o gofnodion cleifion bod staff yn asesu anghenion gofal iechyd y geg ac yn cofnodi eu canfyddiadau. Roeddent yn annog cleifion i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am hylendid eu cegau, ond roeddent yn darparu cymorth yn ôl yr angen.

## **WARD ELAN**

**Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ymchwilio i faterion yn ymwneud â hylendid y geg ar Ward Elan.**

## **Anghenion toiled**

*Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon yn ôl yr angen, gan ystyried unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom fod angen adnewyddu'r cyfleusterau toiled, a nodwyd hefyd bod cordiau hir ar gyfer y larwm yn y naill doiled ond nid oedd rhai yn y llall. Rydym yn cydnabod y bydd y gwaith ailwampio'n mynd i'r afael â hyn.**

Mae un toiled i ddynion ac un i fenywod ar y ward, a dywedodd staff wrthym y byddai'r rhain yn cael eu diweddarau fel rhan o'r gwaith presennol i ailwampio'r ward. Dywedodd rheolwr y ward wrthym y byddai'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r ystafelloedd hyn hefyd yn eu gwneud yn haws i gleifion sydd wedi drysu neu sydd â dementia eu defnyddio'n annibynnol. Roeddent yn bwriadu gosod llawr o'r un lliw ym mhob rhan o'r ward ac yn bwriadu paentio drysau mewn lliwiau a allai helpu pobl â dementia i ddod o hyd i ystafelloedd megis y toiled a'r ystafelloedd ymolchi.

Roedd nodiadau cleifion yn cynnwys asesiadau ymataliaeth, a gwelsom fod cyflenwad o wahanol fathau o badiu ymataliaeth ar gael. Cafodd comodau eu storio'n briodol a'u labelu â gwybodaeth ynglŷn â'r tro diwethaf iddynt gael eu glanhau.

Dywedodd staff wrthym fod modd iddynt ofyn am gymorth gan nyrs ymataliaeth arbenigol ar unrhyw adeg pe bai angen.

#### **WARD ELAN**

**Dim ond ychydig o amser y mae cleifion yn ei dreulio ar Ward Elan. Nid oes arosiadau dros nos ar y ward. Heblaw am y cyfnod byr wrth iddynt wella, mae cleifion yn gofalu am eu hunain yn gyffredinol, er bod staff yn eu cynorthwyo yn ôl yr angen.**

Mae toiledau ar gael i gleifion, a gwnaethom nodi bod un toiled anabl sengl a thoiled arall gydag un ciwbicl i ddynion ac un i fenywod. Nid oeddem yn teimlo bod hyn yn briodol o ystyried bod yr uned yn darparu amrywiaeth o driniaethau llawfeddygol, gan gynnwys rhai gweithdrefnau gynaeolegol. Gwnaeth y staff esbonio inni eu bod yn newid yr arwyddion i droi'r toiled anabl yn doiled menywod os ydynt yn disgwyl cleifion gwrywaidd a benywaidd, a defnyddir y ciwbicl dwbl ar gyfer dynion. Canfuom yr arwyddion yn ddryslyd; fodd bynnag,



fe'n sicrhawyd y byddai cleifion yn cael eu tywys i'r toiledau gan staff sy'n deall y system hon.

### **Atal briwiau pwyso**

*Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.*

### **Casgliad**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom fod amrywiaeth o offer lliniaru pwysau ar gael. Roedd y ward yn arddangos gwybodaeth a oedd yn nodi nad oedd llawer o achosion o friwiau pwyso'n datblygu ymhlith y cleifion a oedd yn derbyn gofal ynddi.**

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion, a gwelsom fod staff yn asesu risg unigolion o ddatblygu niwed pwysedd, ac yna'n defnyddio offer lliniaru pwysau i leihau unrhyw risgiau a nodwyd.

Roedd y ward yn dangos gwybodaeth y gallai staff, cleifion ac unrhyw ymwelwyr ei gweld, a gwnaethom nodi o edrych ar hyn nad oedd llawer o achosion o niwed pwysedd ymhlith y cleifion a oedd wedi derbyn gofal ar Ward Clywedog.

Roedd dirprwy reolwr y ward yn archwilio'n fisol safon y gofal manau pwyso yr oeddent yn ei ddarparu.

#### **WARD ELAN**

**Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ymchwilio i faterion yn ymwneud ag atal briwiau pwyso ar Ward Elan.**

## ***Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

### **Casgliad Troswaol**

#### **WARD CLYWEDOG**

**Gwelsom dîm staff profiadol ac ymroddedig a oedd yn ymfalchio mewn darparu gofal unigoledig sy'n canolbwyntio ar y claf. Gwnaethom nodi y gallai'r tîm newid yn sylweddol (a lleihau) dros y ddwy neu dair blynedd nesaf o ganlyniad i staff yn ymddeol. Nid oeddem yn hyderus bod cynlluniau ynghylch anghenion y gweithlu wedi cael eu paratoi ymlaen llaw er mwyn mynd i'r afael â hyn cyn iddo ddod yn broblem sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar Ward Clywedog.**

#### **WARD ELAN**

**Gwelsom dîm staff brwdfrydig a hyblyg gydag arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gan yr arweinydd tîm ar y safle. Roeddem yn teimlo bod y gwaith o reoli'r gwasanaeth a ddarperir yn gymhleth ac yn llethol, a gwnaethom gwestiynu p'un a oedd gradd yr arweinydd tîm ar y safle yn adlewyrchu natur ymreolus y gwaith a oedd yn cael ei wneud.**

### **Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac atebolrwydd proffesiynol**

#### **WARD CLYWEDOG**

Ar gyfer y deg o welyau sydd ar gael ar Ward Clywedog, mae rheolwr y ward yn pennu'r lefel staffio ar ddwy nyrs gymwysedig a dwy nyrs heb gymhwyso ar gyfer y sifft ddydd, ac un nyrs gymwysedig yn ogystal ag un nyrs heb gymhwyso ar gyfer y sifft nos. Dywedodd wrthym hefyd ei fod yn bwriadu cyflwyno sifft min nos i roi cymorth ychwanegol yn hwyr yn y nos ac mewn oriau cynnar y bore, sy'n gyfnodau prysur ar adegau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod digon o staff i ddiwallu anghenion y cleifion yn eu gofal.

Ac eithrio staff Ward Clywedog eu hunain, sydd gan mwyaf wedi eu cofrestru fel nyrsys banc, nid oes gan y ward restr o staff banc ychwanegol sydd ar gael os oes eu hangen ar fyr rybudd. Pan mae angen staff ychwanegol, mae'r tîm presennol yn gwneud oriau ychwanegol drwy'r banc. Mae Ward Clywedog yn wasanaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, felly er bod wardiau eraill yn yr un ysbyty, mae'r rhain wedi eu staffio gan Fwrdd Iechyd Powys, ac nid ydynt yn darparu unrhyw gydnerthedd ychwanegol o ran staffio i Ward Clywedog. Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd nad oedd wedi cael llawer o lwyddiant wrth ddefnyddio staff asiantaeth i gyflenwi ar y ward. Pan wnaed hyn

yn y gorffennol, roedd lleoliad yr ysbyty yn golygu nad oedd staff asiantaeth ar gael i ddechrau yn y gwaith tan ganol y bore gan fod yn rhaid caniatáu amser teithio.

Dywedwyd wrthym fod hanner y nifer bresennol o staff nyrsio cymwys yn mynd i ymddeol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Nid oedd staff y ward yn ymwybodol o unrhyw waith cynllunio ymlaen llaw gan y Bwrdd Iechyd i benderfynu ar sut i gynnal y ward. Nid oeddent yn ymwybodol ychwaith o unrhyw drafodaethau a allai fod ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Fe'n hysbyswyd bod rhai o'r staff nyrsio heb gymwysterau ar y ward yn awyddus i gael hyfforddiant nyrsio, ac y byddent yn hoffi datblygu yn eu swydd ar Ward Clywedog, ond nid oedd cymorth ar gael iddynt wneud hyn.

### ***Argymhelliad***

#### **Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwybodaeth i AGIC ynglyn â chynllunio ar gyfer eu gweithlu yn y dyfodol mewn perthynas â Ward Clywedog.**

Gwelsom lefelau clir o atebolrwydd ymhlith y staff, a nodwyd bod staff cymwys yn cefnogi gweithwyr cymorth gofal iechyd i ddatblygu ac ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Lle roedd hyn yn digwydd, gwnaethom nodi bod nyrsys cymwys yn cydlofnodi unrhyw gofnodion a wnaed gan y gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Ar y ward ei hunan, gwelsom arweinyddiaeth glir gan reolwyr y ward, a dywedwyd wrthym fod disgwyl i staff fynychu cyfarfodydd tîm a gynhelir ar wahanol adegau yn ystod y dydd er mwyn i staff ar bob sifft allu eu mynychu.

Dywedwyd wrthym hefyd bod uwch nyrsys iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan hefyd yn ymweld â'r ward yn rheolaidd. Dywedodd staff wrthym fod uwch nyrs yn arfer gweithio o fewn Bwrdd Iechyd Powys a'i bod yn goruchwyllo'r ward, ond nid oeddent yn glir p'un a oedd y trefniant hwn yn dal i fod ar waith.

### **WARD ELAN**

Mae Ward Elan yn uned llawdriniaeth ddydd brysur, ac mae'r staff sy'n gweithio ar y ward yn gwneud asesiadau cyn-llawdriniaeth ac yn darparu gofal ac adferiad amdriniaethol, ac yna gofal ôl-driniaethol ar y ward. Caiff y tîm cyfan ei reoli o ddydd i ddydd gan un nyrs band chwech sy'n cael ei chefnogi gan staff eraill sydd ar lefel uwch ac sydd wedi eu lleoli mewn ysbytai eraill ym Mhowys. Mae'r lleoliad, cymhlethdod a'r galw am y gwasanaeth yn uchel ac yn parhau i dyfu, ac roeddem yn teimlo nad oedd y radd band chwech yn adlewyrchu'r

gwaith a oedd yn cael ei wneud, nac ychwaith pa mor annibynnol yw'r uned (o ganlyniad i'w lleoliad) o'r safleoedd eraill.

### ***Argymhelliad***

***Dylai'r Bwrdd lechyd gynnal adolygiad o'r radd glinigol sy'n gysylltiedig â bod yn gyfrifol am redeg yr uned o ddydd i ddydd.***

### **Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol**

#### **WARD CLYWEDOG**

Mae Ward Clywedog yn darparu ar gyfer hyd at ddeg o gleifion hŷn sy'n cael asesiad henoed bregus eu meddwl fel claf mewnol. Roedd ein harsylwadau o'r rhyngweithio rhwng staff a chleifion yn dangos bod staff yn adnabod cleifion unigol yn dda iawn. Roeddent yn siarad yn hyderus am eu hanghenion, a thra oeddem yno, gwelsom eu bod yn treulio rhan sylweddol o'u hamser yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r cleifion. Roedd y nodiadau cleifion a welsom yn dangos bod cynllunio gofal cynhwysfawr yn flaenoriaeth allweddol i staff Ward Clywedog; roedd cynlluniau gofal yn eithriadol o fanwl, ac wedi eu personoli i raddau helaeth. Yn dibynnu ar yr anghenion a gafodd eu hasesu, byddai staff yn gwneud rowndiau bwriadol,<sup>3</sup> ond yn gyffredinol, roedd trefniadau'r ward yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol.

Roedd amserau penodedig ar gyfer prydau bwyd ac amserau penodedig ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Ond eto, roedd hyblygrwydd mewn perthynas â'r rhain yn unol ag anghenion.

---

<sup>3</sup> Proses strwythuredig yw **rowndio bwriadol** lle mae nyrsys ar wardiau mewn ysbytai aciwt a chymuned yn cynnal archwiliadau rheolaidd gyda chleifion unigol ar gyfnodau penodol, bob awr fel rheol. Yn ystod yr archwiliadau hyn, byddant yn cynnal tasgau sydd wedi'u hamserlennu neu'n angenrheidiol.

Mae meddygon yn bresennol ar y ward am ddiwrnod a hanner yn unig allan o saith. Y tu allan i'r amserau hyn, mae gan staff Clywedog fynediad at gymorth dros y ffôn gan uwch nyrsys a nyrsys arbenigol oddi ar y safle, neu mae'n rhaid iddynt ffonio 999 am ambiwlans. Clywsom fod staff meddygol o Ward Clywedog yn fodlon rhoi barn seiciatrig i gleifion ar wardiau eraill o fewn yr ysbyty (yn ystod y diwnod a hanner eu bod yn bresennol yno), ond nid oedd staff meddygol ar wardiau eraill yn fodlon rhoi barn feddygol i gleifion ar Ward Clywedog ar adegau pan fyddai angen gwneud hyn.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan bennu protocol gweithio ar gyfer darparu barn feddygol / barn seiciatrig sy'n ystyried bod y gwasanaethau wedi eu hynysu.***

### **WARD ELAN**

Gwelsom o'r cyfnod byr a dreuliwyd yn arsylwi ar y ward ôl-driniaethol fod trefniadau ar waith i ddarparu arsylwi ôl-driniaethol diogel a oedd yn cynnwys monitro pwysedd gwaed, curiad y galon a thymheredd ar adegau penodol ar ôl dychwelyd i'r ward. Cynigiwyd diod a byrbryd i bob claf cyn iddo gael ei ryddhau adref unwaith eto. Os nad yw cleifion yn ddigon sefydlog, dywedodd staff y ward wrthym eu bod yn cysylltu â'r ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf cyn gynted â phosibl er mwyn trosglwyddo'r claf yno mewn ambiwlans. Pe bai angen gwneud hyn, nid oes yn rhaid i gleifion fynd drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys am fod gwely'n cael ei glustnodi iddynt ar ward mewn uned yn yr ysbyty sy'n derbyn.

### **Hyfforddiant a Datblygiad**

#### **WARD CLYWEDOG**

Gwnaethom siarad â thri aelod o staff ynglŷn â hyfforddiant, ac edrychwyd hefyd ar y cofnod hyfforddiant a oedd yn cynnwys manylion pob aelod o staff, yr hyfforddiant a gwblhawyd ganddynt, a'r hyn yr oeddent ar fin cwblhau.

Mae clerc y ward yn gyfrifol am gadw'r cyfnod hyfforddiant, ac yn anffodus, nid oedd hi'n gweithio ar y ward pan wnaethom ofyn i'w weld. Cafwyd rhywfaint o anhawster o ran cael mynediad at y wybodaeth, a oedd yn cael ei storio'n ddigidol, ond ar ôl cyfnod roedd modd inni gael mynediad ati. Mae'n amlwg bod clerc y ward yn chwarae rhan allweddol ar Ward Clywedog ac yn darparu

cymorth a werthfawrogi yn fawr gan reolwyr y ward; ond dylent fod yn gallu cael mynediad at wybodaeth am hyfforddiant bob amser a chymryd mwy o berchenogaeth dros y manylion pwysig ynddi.

### ***Argymhelliad***

***Dylid gwneud dogfennau allweddol, megis cofnodion hyfforddiant, yn hawdd cael mynediad atynt i bob aelod o staff sydd â'u hangen arno.***

Roedd y cofnod hyfforddiant yn dangos bod y tîm wedi mynychu amryw gyrsiau hyfforddiant. Roedd rhai o'r rhain wedi bod yn fodiwlau e-ddysgu, ond roedd eraill yn ddiwrnodau hyfforddiant a fynychwyd gan y tîm. Roedd y staff y siaradwyd â nhw wedi canmol y diwrnodau hyfforddiant yr oeddent wedi eu mynychu, a dywedwyd wrthym eu bod wedi elwa arnynt.

## **WARD ELAN**

Mae'r holl staff ar Ward Elan yn staff theatr neu nyrsio llawfeddygol profiadol sydd wedi gweithio mewn ysbytai eraill gydag unedau llawdriniaeth prysur. Roedd yr holl staff hefyd wedi hyfforddi hyd at lefel Cynnal Bywyd Ar Unwaith. Heblaw am hyn, ni wnaethom ymchwilio i gofnodion neu ofynion hyfforddiant ar gyfer y ward.

### **Ymdrin â chwynion a phryderon**

## **WARD CLYWEDOG**

Nid oedd cwynion neu bryderon cyfredol ar adeg ein hymweliad arolygu â Ward Clywedog. Dywedodd rheolwr y ward wrthym mai un gwyn yn unig a gafwyd yn ystod y saith mlynedd diwethaf (ond nid yn ddiweddar).

Gwelsom nifer o gardiau a llythyrau yn dweud diolch a oedd wedi eu hanfon at staff, ac roedd y rhain yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y ward.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd iawn ag egwyddorion diogelu a'r gweithdrefnau y byddai'n rhaid iddynt eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn dod i'r golwg.

## **WARD ELAN**

Nid oedd cwynion neu bryderon cyfredol ar adeg ein hymweliad arolygu â Ward Elan.

Gwnaethom dderbyn adborth canmoliaethus iawn gan gleifion ynghylch effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarparwyd ar Ward Elan, ac roeddent yn teimlo bod gweld yr un tîm nyrsio o'r clinig i'r gofal ôl-driniaethol wedi rhoi hyder iddynt.

## **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol**

*Rhaid hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.*

### **Casgliad Trosfwaol**

#### **WARD CLYWEDOG**

Gwnaethom nodi sawl pryder ynghylch pa mor ddiarffordd oedd uned Clywedog a'r lefel isel o argaeledd meddygol, yn ogystal â diffyg cymorth clir wrth gefn ar y safle y gallai'r staff ei ddefnyddio mewn achos brys. Er bod gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi meddyginiaeth, roedd y systemau ar gyfer storio a chynnal y stoc ddiweddaraf yn wael, ac nid oeddent yn lleihau'r risg i gleifion yn ddigonol.

#### **WARD ELAN**

Ni wnaethom ganolbwyntio ar reoli risg tra oeddem ar Ward Elan, ond gwnaethom edrych yn fras ar drefniadau storio meddyginiaeth. Canfuom fod cyflenwadau'n cael eu cadw'n daclus iawn a bod yr holl gofnodion yn glir a chyfoes. Gwelsom hefyd fod y Bwrdd lechyd yn ceisio meithrin cydnerthedd ledled eu dau safle llawdriniaeth ddydd ym Mhowys drwy gael polisiâu a gweithdrefnau safonol sy'n galluogi staff i weithio yn y naill uned neu'r llall.

### **Rheoli risgiau**

#### **WARD CLYWEDOG**

### **Casgliad**

Roedd staff yn ymwybodol o'r system Datix, a dywedwyd wrthym eu bod yn ei defnyddio i adrodd am ddigwyddiadau. Ar lefel y ward, mae'r staff yn cofnodi yn nodiadau'r claf perthnasol bod adroddiad Datix wedi'i gyflwyno, ond nid ydynt yn cadw unrhyw gofnod canolog arall o adroddiadau Datix a gwblhawyd na manylion bras o'r digwyddiad ychwaith. Dywedodd staff wrthym hefyd nad oedd y system TG yn eu caniatáu i argraffu copi o'r adroddiad a gwblhawyd ganddynt gan amlaf. Dywedodd rheolwr y ward wrthym eu bod yn derbyn adborth ac ymateb i adroddiad Datix os yw'r digwyddiad yn arbennig o bwysig; fel arall, nid ydynt yn clywed unrhywbeth arall ynglŷn â'r mater. Nid oedd yn ymddangos bod staff y ward y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o unrhyw gamau dilynol yn sgil cyflwyno adroddiad Datix.



### ***Argymhelliad***

***Dylai rheolwr y ward sicrhau ei fod ef a staff y ward yn derbyn unrhyw ddadansoddiad a wneir ar lefel y Bwrdd Iechyd o adroddiadau Datix a gyflwynir gan Ward Clywedog.***

### **WARD ELAN**

**Ar yr achlysur hwn, ni archwiliwyd rheoli risg ar Ward Elan.**

### **Polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol**

### **WARD CLYWEDOG**

#### **Casgliad**

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi comisiynu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddarparu gofal iechyd meddwl yng nghanolbarth Powys, felly er bod staff Ward Clywedog yn gweithio mewn ysbyty ym Mhowys, staff Aneurin Bevan ydynt mewn gwirionedd.

Dywedwyd wrthym fod staff ar Ward Clywedog yn seinio larwm sy'n canu ar ward feddygol gyfagos mewn achosion brys. Mae'r staff ar y ward feddygol gyfagos yn ffonio i weld a oes modd iddynt gynorthwyo (megis dod â'r troli ataliad ar y galon), ond nid ydynt bob amser yn gallu helpu os nad oes meddyg ar gael ar y ward feddygol. Mewn rhannau eraill o'r ysbyty, mae tîm sy'n ymateb i achosion brys ar y safle yn ystod y dydd, ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Ward Clywedog. Roedd y sefyllfa hon yn ddryslyd i staff Ward Clywedog, ac roedd yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn gweithio ar wahân wrth ofalu am gleifion Powys o ddydd i ddydd. Gwnaethom ofyn i reolwr y ward inni gael gweld y protocol a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y ward feddygol gyfagos wrth ymdrin ag achosion brys ar Ward Clywedog, ond nid oedd yn ymwybodol o unrhywbeth ffurfiol ac ysgrifenedig y gellid ein dangos.

### ***Argymhelliad***

***Dylai Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ystyried yn ofalus yr ymateb i achosion brys a'r cymorth wrth gefn sydd ei angen ar gleifion (unigolion Powys) a staff Ward Clywedog, a dylent ddatblygu protocol sy'n amlinellu'n glir yr hyn gall staff ar y safle ei wneud i gynorthwyo ei gilydd.***

## **WARD ELAN**

### **Casgliad**

Mae uned llawdriniaeth ddydd mewn ysbyty arall ym Mhowys, a dywedwyd wrthym fod y dogfennau, trefniadau ac offer wedi eu safoni ar draws y ddwy uned, sy'n golygu bod staff yn gallu gweithio yn y naill neu'r llall, ac mae modd mynd i'r afael â diffyg staff drwy ddefnyddio'r tîm cyfan o staff llawdriniaeth ddydd.

### **Diogelwch cleifion**

## **WARD CLYWEDOG**

### **Casgliad**

Roeddem yn gallu gweld o ddogfennau cleifion eu bod yn cael eu monitro'n agos iawn a bod eu gofal yn cael ei gynllunio'n fanwl a'i gyd-drefnu i ddarparu'r lefel uchaf o gymorth a chyn lleied o risg â phosibl. Mae'r staff yn defnyddio systemau archwilio i gofnodi a monitro nifer yr achosion o gleifion yn cwmpo ac o friwiau pwysu ar y ward, ac roedd yr holl dystiolaeth a welsom yn dangos bod lefel isel o achosion ar gyfer y naill a'r llall. Dirprwy reolwr y ward sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros gwblhau'r gwaith monitro hwn, ac roedd yn wybodus iawn ynglŷn â'r systemau hyn pan wnaethom siarad ag ef. Nid oedd staff eraill ar y ward yn gyson yn gyfarwydd â'r archwiliadau a wneir, nac ychwaith eu canlyniadau, sy'n gallu rhoi gwybodaeth werthfawr ynglŷn â meysydd i'w gwella.

### ***Argymhelliad***

***Cyfathrebu mwy â'r holl staff ynglŷn ag archwiliadau sydd ar y gweill a'r rheswm dros eu cynnal, yn ogystal â'u canlyniadau unwaith iddynt fod ar gael.***

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol o fewn yr adroddiad, ar hyn o bryd mae dryswch ynghylch y cymorth sydd ar gael i staff Clywedog mewn achosion brys, ac mae hyn yn destun pryder o ran diogelwch cleifion. Roeddem hefyd yn bryderus ynghylch y ffaith bod meddygon ar y ward am ddiwrnod a hanner yn unig bob wythnos. Y tu allan i'r diwrnod a hanner hwn, rhaid i staff Ward Clywedog ddod i

ben â phethau drwy alw 999 neu drwy alw am gymorth rhywle arall ar y safle, ac nid oes sicrwydd y byddant yn ei gael.

### ***Argymhelliad***

***Gwneud trefniadau cyflenwi meddygol a phrotocolau achosion brys yn fwy clir er mwyn i'r staff gael rhagor o gymorth ar y safle.***

Gwelsom hefyd fod y bag ac offer dadebru mewn argyfwng yn cael eu cadw y tu ôl i ddrws dan glo ar y ward. Pe bai angen yr offer hwn, byddai'n rhaid i'r staff fynd i nôl yr allwedd i agor y drws cyn iddynt allu dechrau defnyddio'r offer.

### ***Argymhelliad***

***Sicrhau bod offer achosion brys o fewn cyrraedd hawdd i'r staff pe bai arnynt ei angen.***

## **WARD ELAN**

### **Casgliad**

**Ni archwiliwyd diogelwch cleifion ar Ward Elan ar yr achlysur hwn.**

### **Rheoli meddyginiaeth**

*Dull a threfn y ward*

## **WARD CLYWEDOG**

Ar Ward Clywedog, dywedwyd wrthym fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion gan ddau aelod o staff bob amser. Mae bob amser un nyrs gymwys sy'n rhan o hyn, ond bydd yr ail nyrs naill ai'n gymwys neu heb gymwysterau. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, bod yn well ganddynt gael dwy nyrs gymwys i wneud y dasg hon. Esboniodd rheolwr y ward wrthym fod sicrhau bod cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth yn rhan hanfodol o'r cymorth a roddir iddynt ar y ward, ac felly maent yn cymryd amser dros y dasg hon. Mae un nyrs bob amser yn aros gyda'r claf er mwyn cynorthwyo a sicrhau ei fod wedi cymryd ei feddyginiaeth. Gwelsom ddwy nyrs yn gwneud y rownd dosbarthu meddyginiaeth fel y'i disgrifiwyd inni uchod.

## **WARD ELAN**

**Ar yr achlysur hwn, ni archwiliwyd trefniadau neu ddull y ward o reoli meddyginiaeth.**

*Storio cyffuriau*

## **WARD CLYWEDOG**

Storiwyd meddyginiaeth i'w defnyddio o ddydd i ddydd mewn troli, a gwelsom fod hon dan glo ac wedi'i gosod yn sownd wrth wal yn yr ystafell fwyta ar y ward pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Yn swyddfa'r ward, gwelsom fod oergell feddyginiaeth a chwprdd dan glo lle roedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio. Roedd y cwprdd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan dîm iechyd meddwl cymunedol i storio rhai o'r feddyginiaeth a ragnodwyd i'w cleifion. Daethom o hyd i saith eitem a oedd allan o ddyddiad yn yr oergell, a rhagor o eitemau allan o ddyddiad yn y cwprdd. Pan wnaethom siarad â staff ynglŷn â hyn, roedd yn ymddangos nad oedd system ar waith i edrych yn yr oergell er mwyn sicrhau bod eitemau nad oes eu hangen bellach yn cael eu gwaredu, neu fod eitemau sydd heibio eu dyddiad yn cael eu tynnu allan a'u hamnewid os oes angen.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i reolwr y ward roi system ar waith i wirio meddyginiaeth sy'n cael ei storio gan y ward yn yr holl gypyrddau, troliau ac oergelloedd, gan sicrhau bod meddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad yn cael ei gwaredu'n ddiogel a'i hamnewid os oes angen.***

Yn y cwprdd meddyginiaeth, gallai fod wedi bod yn hawdd cymysgu rhwng yr eitemau a adawyd yno gan y tîm cymunedol ac eitemau'r ward, ac roedd rhai o'r rhain hefyd heibio eu dyddiad a heb gael eu gwaredu.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod protocol ysgrifenedig y mae'n rhaid i'r tîm cymunedol ei ddilyn er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth a adewir ganddynt yng nghwprdd y ward yn cael ei chadw'n daclus, i ffwrdd o stoc Ward Clywedog ac, eto, wedi ei gwaredu'n briodol yn ôl yr angen.***

Roedd blwch yn yr oergell a oedd yn cynnwys eitemau a fyddai'n cael eu defnyddio i drin claf â glwcos gwaed isel. Roedd un o'r rhain yn cael ei storio'n anghywir gan na ddylai gael ei gadw mewn oergell, ac roedd eitemau eraill heibio eu dyddiad.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod meddyginiaethau brys yn cael eu storio'n briodol, a rhaid rhoi system ar waith i'w gwirio'n rheolaidd.***

## **WARD ELAN**

Gwnaethom ystyried yn fras trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth ar y ward, a gwelsom fod stoc dda yn y cwpwrdd meddyginiaeth a'i fod yn daclus. Roedd yn ymddangos bod yr holl gofnodion ynglŷn â chyffuriau a reoleiddir yn drefnus ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd mewn ffordd briodol. Mae fferyllydd yn ymweld â'r ward bob wythnos i wirio'r feddyginiaeth ac i ddod â rhagor o'r holl eitemau angenrheidiol. Canfuwyd bod offer ar gyfer rhoi ocsigen ac offer arbenigol ar gyfer offthalmoleg a gynaeoleg wedi cael eu gwirio a'u cynnal i'r safon sy'n ofynnol. Caiff cleifion eu hanfon adref gyda rhywfaint o feddyginiaeth i reoli poen a symptomau ôl-driniaethol eraill, a gwelwyd stociau o'r rhain hefyd.

### ***Y Camau Nesaf***

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ward Clywedog a Ward Elan yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/unedau eraill sy'n cael eu rheoli ganddo.

Caiff cynllun gwella'r Bwrdd Iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu barhaus o urddas a gofal hanfodol.

*Atodiad A*

**Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella**

**Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod**

**Ward/Adran: Ward Clywedog a Ward Elan**

**Dyddiad yr Arolygiad: 6 a 7 Tachwedd 2014**

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
	<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>			
8.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Dylai tîm y ward ystyried sut gellid personoli ystafelloedd cleifion er mwyn gwneud mannau unigol yn fwy cartrefol.</i>			
9.	<b>WARD CLYWEDOG</b>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><i>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno i AGIC gopiau o'r broses a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniad ynghylch nifer y gwelyau i'w cadw ar agor yn ystod y gwaith ailwampio, yn ogystal â'r asesiadau risg cysylltiedig.</i></p>			
9.	<p><b>WARD ELAN</b></p> <p><i>Rhaid i'r ward osod arwyddion yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion bod posibilrwydd o oedi os oes angen gwneud lle ar gyfer achosion brys. Rhaid hefyd atgoffa staff y ward bod yn rhaid iddynt roi gwybod i gleifion am bryd gallant ddisgwyl gweld rhywun.</i></p>			
<p><b>Cyflenwi Hanfodion Gofal</b></p>				
12	<p><b>WARD CLYWEDOG</b></p> <p><i>Darparu arwyddion amgen i'r staff eu harddangos ar ddrysau ystafelloedd sydd o reidrwydd yn ystafelloedd amldefnydd.</i></p>			
12.	<p><b>WARD ELAN</b></p> <p><i>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad o</i></p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><i>ardal Ward Elan, gan ganolbwyntio ar breifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion. Mae'n bosibl hefyd bod materion i'w hystyried yn ymwneud â rheoli heintiau mewn perthynas ag agosrwydd cyflenwad dŵr y dialysis, a dylid archwilio i'r rhain. Rhaid anfon copi o ganlyniad yr adolygiad hwn at AGIC, ynghyd â'r cynllun gweithredu dilynol a gynhyrchir i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gennym</i></p>			
16.	<p><b>WARD ELAN</b></p> <p><i>Ailystyried trefniadau'r ward a'r uned dialysis gyfagos er mwyn parchu dewis cleifion i gadw eu triniaeth ar Ward Elan yn gyfrinach.</i></p>			
17.	<p><b>WARD CLYWEDOG</b></p> <p><i>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod rheolwyr wardiau'n cael asesiadau risg ac amserlen ysgrifenedig o waith adeiladu.</i></p>			
17.	<p><b>WARD ELAN</b></p>			



Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Fel y crybwyllwyd eisoes, mae cael cleifion yn cerdded drwy Ward Elan at yr uned dialysis yn ychwanegu at y sŵn, a rhaid ystyried effaith hyn wrth gynnal yr adolygiad o'r ward.</i>			
20.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Dylid cynnig rhagor o fwyd i gleifion os ydynt wedi gorffen eu pryd bwyd ac mae rhagor ar gael.</i>			
<b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
25.	<b>WARD CLYWEDOG</b> Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwybodaeth i AGIC ynglŷn â chynllunio ar gyfer eu gweithlu yn y dyfodol mewn perthynas â Ward Clywedog.			
26.	<b>WARD ELAN</b> <i>Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad o'r</i>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>radd glinigol sy'n gysylltiedig â bod yn gyfrifol am redeg yr uned o ddydd i ddydd.</i>			
27.	<p><b>WARD CLYWEDOG</b></p> <p><i>Rhaid i Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan bennu protocol gweithio ar gyfer darparu barn feddygol / barn seiciatrig sy'n ystyried bod y gwasanaethau wedi eu hynysu.</i></p>			
27.	<p><b>WARD CLYWEDOG</b></p> <p><i>Dylid gwneud dogfennau allweddol, megis cofnodion hyfforddiant, yn hawdd cael mynediad atynt i bob aelod o staff sydd â'u hangen arno.</i></p>			
<b>Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol</b>				
30.	<p><b>WARD CLYWEDOG</b></p> <p><i>Dylai rheolwr y ward sicrhau ei fod ef a staff y ward yn derbyn unrhyw</i></p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>ddadansoddiad a wneir ar lefel y Bwrdd Iechyd o adroddiadau Datix a gyflwynir gan Ward Clywedog.</i>			
30.	<i>Dylai Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ystyried yn ofalus yr ymateb i achosion brys a'r cymorth wrth gefn sydd ei angen ar gleifion (unigolion Powys) a staff Ward Clywedog, a dylent ddatblygu protocol sy'n amlinellu'n glir yr hyn gall staff ar y safle ei wneud i gynorthwyo ei gilydd.</i>			
31.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Cyfathrebu mwy â'r holl staff ynglŷn ag archwiliadau sydd ar y gweill a'r rheswm dros eu cynnal, yn ogystal â'u canlyniadau unwaith iddynt fod ar gael.</i>			
31.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Gwneud trefniadau cyflenwi meddygol a</i>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>phrotocolau achosion brys yn fwy clir er mwyn i'r staff gael rhagor o gymorth ar y safle.</i>			
32.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Sicrhau bod offer achosion brys o fewn cyrraedd hawdd i'r staff pe bai arnynt ei angen.</i>			
33.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Rhaid i reolwr y ward roi system ar waith i wirio meddyginiaeth sy'n cael ei storio gan y ward yn yr holl gypyrddau, trolïau ac oergelloedd, gan sicrhau bod meddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad yn cael ei gwaredu'n ddiogel a'i hamnewid os oes angen.</i>			
33.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod protocol ysgrifenedig y mae'n rhaid i'r tîm cymunedol ei ddilyn er mwyn sicrhau bod</i>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>meddyginiaeth a adewir ganddynt yng nghwprdd y ward yn cael ei chadw'n daclus, i ffwrdd o stoc Ward Clywedog ac, eto, wedi ei gwaredu'n briodol yn ôl yr angen.</i>			
33.	<b>WARD CLYWEDOG</b> <i>Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod meddyginiaethau brys yn cael eu storio'n briodol, a rhaid rhoi system ar waith i'w gwirio'n rheolaidd.</i>			

### Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):.....

Teitl: .....

Llofnod:.....

Dyddiad:

